

Amaethyddiaeth

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Gwanwyn 2009

Cyrsiau IBERS yn sgorio'n uchel yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol

Pôl piniwn a gomisiynwyd gan gyrff cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, o fyfyrwyr graddedig diweddar ar draws y DU sydd nawr yn ei bedwaredd flwyddyn, yw'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC). Bu boddhad myfyrwyr a Phrifysgol Aberystwyth yn uchel ers blynyddoedd ond mae canlyniadau 2008 yn well nag erioed. Canfuwyd bod amaethyddiaeth a chyrsiau cyffelyb (cyrsiau gradd gwyddor anifeiliaid, rheolaeth cefn gwlad ac astudiaethau ceffyl) yn IBERS wedi derbyn y sgôr uchaf am foddhad myfyrwyr yn y DU.

Dyweddodd Cyfarwyddwr y Sefydliad, yr Athro Wayne Powell, bod "yr arolwg yma yn cadarnhau yr hyn mae'r myfyrwyr yn dweud yn barod am ein dysgu. Mae ymroddiad ac arbenigedd y staff, yr adnoddau gwyb megis ein ffermydd, labordai ac amgylchedd wych Aberystwyth



Yr Hen Goleg, Prifysgol Aberystwyth

yn cyfuno i wneud IBERS yn ddewis cyntaf amlwg".

Gwnaeth yr Athro Will Haresign, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu sylw bod "y canlyniadau yma yn adlewyrchu'r gwaith caled sy'n digwydd yn y Sefydliad i wrando ar fyfyrwyr ynglŷn a'i anghenion a'r gwaith caled i sicrhau eu bod yn cael y profiad addysgol gorau posib".

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
IBERS ABERYSTWYTH

Rhestr Cyrsiau

BSc Anrhydedd

Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Amaethyddiaeth gyd Rheolaeth Cefn Gwlad
Amaethyddiaeth a Marchnata
Amaethyddiaeth ac Astudiaethau Busnes

Gradd Sylfaenol

Amaethyddiaeth

DGU

Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Busnes
Amaethyddiaeth a Chadwraeth Cefn Gwlad

Cyswilt

Iwan Owen
Penri James

(01970) 624471
igo@aber.ac.uk
wpj@aber.ac.uk

Cyn fyfyrwraig yn cael ei henwi yn Ffermwraig y Flwyddyn



Lynda ar ei fferm

Cafodd cyn-fyfyrwraig o Aberystwyth sy'n rhedeg busnes gwledig dra-llwyddianus gyda'i gŵr ei henwi'n Ffermwraig y Flwyddyn 2008 yn y Fafir Aef yn Llanelwedd ym mis Rhagfyr.

Mae Lynda Perkins o Dinas Island Farm, Sir Benfro, yn hoff iawn o ddefaid Suffolk ers iddi ddechrau diadell 'hobi' ond, erbyn hyn, mae hi a'i gŵr yn cadw oddeutu 1,800 o ddefaid magu. Mae hefyd yn rhedeg y maes carafanau a thentio ar y fferm, yn ogystal a gosod bythynod, gan wneud defnydd da o'i gradd mewn Amaethyddiaeth a Busnes o Aberystwyth. Erbyn hyn, mae yn rhedeg busnes arlwyio yn ogystal, gan ddefnyddio cynyrch lleol yn cynnwys eu cig oen a chig eidion eu hunain er mwyn tentio twristiaid i ddychwelyd i'w bythynod am brydiau blasus y medrant hefyd eu cymeryd gartref. "Roeddyd eisieu ychwnaegu gwerth i'n cynyrch a'n busnes ac mae'n mynd yn dda iawn hyd yn hyn."

Mae ei gŵr, Neil, yntau yn gyn-fyfyriwr ac yn is-gadeirydd Ffermwyr Dyfodol Cymru, yn cydnabod mai ymroddiad a brwdfrydedd ei

wraig roddodd y cyfle iddo i drafaelio i Seland Newydd i ddysgu mwy am reolaeth defaid yn 2005 – arweiniodd hyn iddynt ddyblu maint eu diadell a newid y system reoli yn sylweddol. Cyfarfuont fel myfyrwyr yn Aberystwyth, yn 1998.

Dyweddodd Martin Doyle, cyfarwyddwr amaethyddol Nat West: "Wrth ddewis enillydd, bu'r panel o feirniaid yn edrych yn fanwl ar nifer o feini prawf, gan gynnwys y rhan yr oedd yr ymgeiswyr yn ei chwarae mewn gwneud y fferm yn uned busnes llewyrchus, eu cyfraniad tuag at gynyddu rôl gwragedd yn y diwydiant yn ogystal a'u cyfraniad i'w cymuned a gwahanol fudiadau. Mae'n rhaid imi ddweud fod Lynda nid yn unig wedi bodloni'r meini prawf ond hefyd wedi mynd lawer ymhellach na hynny. Fe wnaiff lysgenhadwr dda iawn dros bob gwraig sy'n rhan o'r diwydiant yng Nghymru."

Ffermio ar gopa'r byd

Mae Iolo Jones, o Ddinas Mawddwy ym Mhowys, yn cwblhau ei brofiad gwaith fel rhan o'i gwrs HND mewn Amaethyddiaeth a Chadwraeth Cefn Gwlad ar fferm Hafod y Llan, yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Cenedlaethol yng nghanol Eryri.

Rai blynyddoedd yn ôl, fe hudolwyd ganoedd o filoedd o'r cyhoedd gan apêl 'Arbed y Wyddfa'. Yn gynwysedig oedd llywydd yr apêl, Syr Anthony Hopkins, a gyfranodd £1m o'i boced ei hun er mwyn prynu'r fferm.



Fferm Hafod y Llan, Eryri

Hafod y Llan, sy'n 4,370 acer (1,769 hectar), yw un o ffermydd mwyaf yr Ymddiriedolaeth. Mae'r fferm ei hun yn gorwedd yng nghwm Nantgwynant ac yna'n codi'n serth o'r clytwaith o gaeau gwastad wedi eu amgylchynu gan waliau cerrig sych ar ochr llethrau dramatig Cwm Llan i gopa'r Wyddfa ei hun.

Erbyn hyn, mae miloedd o fetrau o waliau cerrig a therfynau wedi eu trwsio neu eu codi, dwsianu o lidiardau pren wedi eu crogi a llwybr fferm wedi ei greu er mwyn galluogi ymwelwyr i weld y cynnydd a wnaed. Mae'r ddiadell ddefaid yn cynnwys 1,600 o famogiaid mynydd ac mae buches o warthog duon wedi ei ail-greu er mwyn pori'r porfeydd mynyddig. Mae'r fferm yn organig ac yn rhan o gynllun Bwyd Rhydd yr RSPCA.

Croesawodd Rheolwr y Fferm, Arwyn Owen, y cyfle i gyflogi myfyriwr cyfnod gwaith gan ddweud fod 'Yr Ymddiriedolaeth yn awyddus i anog pobl ifanc i ddod i mewn i'r diwydiant ac i greu cyfleoedd profiad gwaith. Yn gynyddol, mae myfyrwyr o gefndir amaethyddol confensiynol cryf, fel Iolo, yn awyddus i gael profiad o reolaeth amaeth-amgylcheddol ac i ddysgu'r sgiliau cadwraethol sy'n gysylltiedig a hyn.'

Mae Iolo wedi cael amser hynod o ddiddorol hyd yn hyn, 'Mae'n wahanol iawn i'r fferm gartref. Hyd yn hyn, 'rwyf wedi bod yn gweithio ar y fferm ac 'rwy'n edrych ymlaen yn fawr at dreulio'r 3 mis nesaf gyda Warden y Stâd yn cwblhau tasgau fel codi waliau cyn dychwelyd at waith fferm amser wyna. Mae'n brofiad gwaith delfrydol i mi ac yn hynod o briodol ar gyfer fy nghwrs.'

Am wir flas o Gymru edrychwch ar Aberystwyth – ble arall?

Yn y 12 mis ers dechrau cyflenwi cynnyrch ffermydd ei hun i Wasanaethau Preswyl a Chroeso'r Brifysgol ac i'r cyhoedd mae'r busnes wedi mynd o nerth i nerth. Ym mis Tachwedd derbyniodd gig oen y Brifysgol, sy'n cael ei farchnata fel 'Ger y Lli', wobwr 'Gwir Flas ar Fwyd a Diod Cymru' 2008/09. Cyflwynodd 350 o gwmnïau ar draws Cymru dros 900 o'r cynhyrchion gorau yng Nghymru i'r gystadlaeth.

Fe fu panel dyfarnu oedd yn cynnwys yr arbenigwyr bwyd a choginio mwyaf blaenllaw wrthi yn pendroni am dridiau cyn dod i benderfyniad.

Dywedodd Huw McConochie, Rheolwr y Ffermydd 'Mae hyn yn profi ein bod mewn cyfnod byr wedi diwallu anghenion y farchnad am ansawdd wedi ei gynhyrchu'n lleol a hefyd dangos i'r myfyrwyr mai ychwanegu gwerth i gynhyrchion fferm yw'r ffordd ymlaen.'



Huw McConochie (de) a Kevan Downing (canol) gyda Rees Roberts o Hybu Cig Cymru, noddwyr y wobwr.

Beth yn benderfynol i sicrhau bod plant yn dysgu am amaethyddiaeth

Graddiodd Beth Harrison gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Amaeth a Gwyddor Anifeiliaid yn 2008. Cafodd ei magu



yn Sheffield, cefndir eithaf anghyffredin i fyfyrwr amaethyddol. Yn Sioe Frenhinol Cymru yr haf diwethaf cyflwynwyd Gwobr Myfyriwr Amaethyddol Dr Richard Phillips iddi am y myfyriwr amaethyddol gorau mewn Prifysgol Cymreig. Ar hyn o bryd mae'n brentis gyda'r Weinidogaeth Gwledig yn Essex.

Nid wyf o gefndir amaethyddol; fe'm magwyd mewn dinas a does dim ffermwyr yn fy nheulu. Dechreuodd fy niddordeb mewn amaethyddiaeth pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd ac wedi i mi anwybyddu cyngor y cynghorydd gyfaon penderfynais astudio amaethyddiaeth yn y brifysgol. Arweiniodd y penderfyniad yma imi astudio am radd mewn Amaeth a Gwyddor Anifeiliaid yn Aberystwyth. Er diffyg profiad amaethyddol roedd Aber yn fodlon cynnig lle i mi, ac roedd yn wir

anrhydedd ennill gradd dan arweiniad y staff yno. Fe wnes fwynhau'r cwrs pedair blynedd yn enwedig y flwyddyn profiad gwaith. Dysgais lawer gan ofalwyr gwartheg a bugeiliaid a weithiais gyda hwy yn ystod y flwyddyn, a phan rwy'n ystyried yr hyn a wnes i gyflawni rwy'n wylaidd wrth gofio am y ffermwyr a ddysgodd lawer i mi.

Mae'n anhygoel meddwl fod cymaint o bethau sylfaenol am amaethyddiaeth nad oeddwn yn ymwybodol ohonynt oherwydd nad oeddwn wedi cael cyfle. Mae mor bwysig fod blant sy'n tyfu yn y trefi a'r dinasoedd a nad sy'n ymwybodol o amaethyddiaeth o ddydd i ddydd, yn cael cyfle i ddysgu am amaethyddiaeth.

Nawr fy mod wedi derbyn gradd yr wyf am ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n fy ngalluogi i fod yn rhan o broses i ganiatáu plant dyfu i fod yn ymwybodol o amaethyddiaeth a sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i ddysgu a chael profiad yn gymharol hwyr o ffermio. Rwyf am gyflwyno hyn i blant cael magu cariad at amaeth yn gynharach na chefais i gyfle.